

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

{My}dentist, The Friars / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 12 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o {My}dentist yn The Friars, Coedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PB, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 12 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod {My}dentist, The Friars yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyson â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i'r cleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gofyn am farn cleifion
- Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys offer priodol, yn daclus ac yn drefnus
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio pelydr-X yn ddiogel
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu safoni yn y practis drwy gynnal archwiliad arall o drefniadau cadw cofnodion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae {My}dentist, The Friars yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Aberystwyth. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, dau hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, pedair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant (y mae dwy ohonynt yn gweithio yn y dderbynfa hefyd) a rheolwr practis dynodedig.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod {My}dentist, The Friars yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 42 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Hapus iawn â'r gwasanaeth bob amser. Diolch yn fawr iawn"

"Mae'r tîm deintyddol cyfan yn darparu gwasanaeth gwych bob amser"

"Ardderchog"

"Staff cyfeillgar iawn, ardderchog gyda phlant a chleifion nerfus"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth, ond awgrymodd un claf:

"Mwy o argaeledd yn ystod yr wythnos ar gyfer apwyntiadau"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thafleddi gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos yn ddwyieithog a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un ond tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael wrth ddesg y dderbynfa a'r ardaloedd aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Yn ddiethriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym:

"Ystyriol iawn"

"Mae awyrgylch hyfryd a chyfeillgar yma, sy'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus bob amser er bod ofn deintyddion arnaf"

"Mae'r staff bob amser yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn gwneud eu gorau i helpu"

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardal lle gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw'r cleifion.

Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar gael i'r cleifion ar gais yn y practis. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall y cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, cymaint ag yr hoffent, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a'u bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt ei chael.

Roedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welsom. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn ddwyieithog yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Gall tua hanner y staff sy'n gweithio yn y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â'r cleifion, gan gynnwys staff y dderbynfa.

² <https://standards.gdc-uk.org/>

Nodwyd bod poster Iaith Gwaith yn cael ei arddangos ger y dderbynfa. Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg. Dywedodd un claf wrthym:

"Er nad yw fy neintydd i yn siarad Cymraeg, mae wedi cyflogi nyrs ddeintyddol sy'n siarad Cymraeg, ac rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr"

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd un claf wrthym:

"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atyn nhw. Roedden nhw hefyd wedi llwyddo i drefnu sawl apwyntiad brys i mi pan gefais broblemau â gwraidd dant pan roeddwn i'n feichiog. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n flaenoriaeth iddyn nhw a chefais ofal da iawn gan y deintydd a'r staff i gyd – gwasanaeth gwych!"

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn fanwl ac o ansawdd da. Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben³.

Hawliau pobl

Nodwyd bod polisi cyfle cyfartal penodol ar waith yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd y practis ar dri llawr. Mae'r cyfleusterau clinigol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Mae'r llawr daear yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i ddwy ddeintyddfa, y dderbynfa a'r ardal aros.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod gan y practis bolisi cwyno ysgrifenedig. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardaloedd aros.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a gyflwynwyd, eu monitro ac ymateb iddynt.

Gwnaethom drafod system y practis i geisio adborth gan y cleifion, sef llyfr adborth a sylwadau a leolir yn y dderbynfa. Dywedodd y practis wrthym hefyd fod y cleifion yn cael neges destun ar ôl pob apwyntiad er mwyn rhoi cyfle iddynt roi adborth. Gall y cleifion hefyd roi adborth ar wefan y practis. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a'u cyhoeddi ar y wefan. Mae hyn yn dangos i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi'i ystyried a bod y practis wedi gweithredu arno er mwyn dysgu a gwella'r gwasanaeth.

Gwelsom hefyd fod blwch sylwadau ar gael yn y dderbynfa er mwyn i'r cleifion roi adborth ychwanegol neu adael awgrymiadau yn ddiennw.

³ Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd angen ei chynnwys mewn datganiad o ddiben.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyson â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod offer a phrosesau dihalogi yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

At ei gilydd, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da iawn y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai clo gael ei osod ar ddrysau'r cabinet ar y wal gyferbyn â'r fynedfa i ddeintyddfa 4 er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben a gwelsom ddigon o ddogfennau a oedd yn dangos bod y practis wedi ystyried pob risg fewnol ac allanol i'r staff, ymwelwyr a chleifion.

Roedd polisi dadebru ar waith yn y practis a gwelsom fod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod clo yn cael ei osod ar ddrysau'r cabinet ar y wal gyferbyn â'r fynedfa i ddeintyddfa 4.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) cyfarpar deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, yn glir rhag rhwystrau ac yn cynnwys offer priodol.

Gwnaethom ystyried y trefniadau dihalogi ac roedd y broses a welsom yn dda iawn. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom y canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Gwiriadau cynnal a chadw dyddiol
- Roedd y cynwysyddion storio offerynnau yn gryf, ac roedd caeadau arnynt.

Gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd yr archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau a gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf a gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau/cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefnau da iawn a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol a oedd yn ymwneud â'r cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd gan y gwasanaeth un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. Gwelsom fod copi o'r gweithdrefnau a'r manylion cyswllt yn cael ei gadw yn swyddfa rheolwr y practis hefyd.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff i arwain materion diogelu, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn, ac yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith gyda rheolwr y practis a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch y cleifion. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân iawn ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel ac roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-X.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis; hylendid dwylo, croes-heintio, adborth cleifion, ansawdd delweddau pelydr-X a nodiadau clinigol.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio adnoddau archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan fod hynny'n hyrwyddo arfer da.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i staff clinigol gymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid yn y practis. Mae adolygiadau cymheiriaid rhwng staff clinigol yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnoddau a ddatblygwyd gan ganolfan gorfforaethol grŵp {My}dentist a ddyluniwyd i gefnogi prosesau gwella ansawdd.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried defnyddio adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth AaGIC. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn adnodd datblygu tîm ar gyfer practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a'r ffordd y mae'n gweithio fel tîm.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw dan glo ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd prosesau diogel ar waith i gael mynediad at gyfrifiaduron ac nid oedd y sgriniau yn weladwy i bobl eraill. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff am yr hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion pob deintydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion digonol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau ac anghysondebau rhwng deintyddion o ran y manylion a gofnodwyd mewn rhai o gofnodion unigol y cleifion. Gwelsom fod

angen i rai deintyddion gofnodi mwy o fanylion am y driniaeth a ddarperir. Gwelsom hefyd fod dos anghywir o wrthfotigau wedi cael ei roi mewn un achos. Gwnaethom drafod ein canfyddiadau'n uniongyrchol â rheolwr y practis a aeth ati ar unwaith i drefnu ei bod yn adolygu'r cofnodion ac yn trafod y materion yn uniongyrchol â'r clinigwyr perthnasol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gynnal archwiliad arall o drefniadau cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu safoni yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu safoni yn y practis drwy gynnal archwiliad arall o drefniadau cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Rheolwr y practis yw'r rheolwr cofrestredig⁴ a Chyfarwyddwr Clinigol Grŵp {My}dentist yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁵.

⁴ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

⁵ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rôl yn y practis. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser, roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd.

Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi llofnodi'r polisiâu i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisiâu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod arferion lleol yn gyfredol.

Rhoddyd copi o'r datganiad o ddiben i ni, a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiâu a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw. Os na all unrhyw aelod o'r staff fod yn bresennol, bydd rheolwr y practis yn tynnu ei sylw at y cofnodion. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r materion a'r trafodaethau a gynhelir mewn perthynas â'r practis.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: {My}dentist, The Friars

Dyddiad arolygu: 12 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: {My}dentist, The Friars

Dyddiad arolygu: 12 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dd/G				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod clo yn cael ei osod ar ddrysau'r cabinet ar y wal gyferbyn â'r fynedfa i ddeintyddfa 4.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; PDR 22	Cwblhawyd – clo wedi'i osod ar y cwpwrdd	Emma Holden	13/12/2019
Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu safoni yn y practis drwy gynnal archwiliad arall o drefniadau cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion; PDR 20	Ers yr arolygiad, mae {my}dentist wedi adolygu a chyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o dempledi archwilio cardiau cofnodion. Mae'r Archwiliad bellach yn edrych ar	Emma Holden	13/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ystod benodol o gleifion – e.e. archwiliad oedolyn, archwiliad plentyn, llenwadau, triniaethau sianel y gwreiddyn, perio, tynnu dannedd, triniaethau gosod corun</p> <p>Rheolwr y practis i gwblhau archwiliadau diwygiedig a'u hadolygu â'r pedwar clinigydd</p>		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Emma Holden

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 12/02/2020